
**Rhif**: **6**

**Rhif y Cais / Application Number : C16/0407/41/LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C16/0407/41/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 13/05/2016 |
| Math y Cais: | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned: | Llanystumdwy |
| Ward: | Llanystumdwy |
| Bwriad: | CAIS AR GYFER CREU SAFLE CARAFANAU TEITHIOL NEWYDD 17 UNED, AIL LEOLI 2 UNED STATIG BRESENNOL A CHODI BLOC TOILEDAU |
| Lleoliad: | SWN Y DON, AFONWEN, CHWILOG, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6TA |

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** GWRTHOD

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae'r cais yn gais llawn i greu maes carafanau teithiol ar gyfer 17 carafán symudol ynghyd a chodi adeilad unllawr i gynnwys toiledau/adnoddau ymolchi, nodir hefyd y bwriad o symud dwy garafán statig o'u lleoliad presennol i leoliad newydd.

1.2 Mae'r safle wedi ei leoli ar dir agored ar gyrion Afonwen ac yn weddol agos i'r traeth a'r rheilffordd gyda mynediad tuag at y safle i lawr ffordd gul bresennol oddiar briffordd yr A497.

1.3 Mae'r bwriad yn golygu creu 17 llain ar gyfer yr unedau wedi eu gosod mewn rhes gyferbyn a'i gilydd a chodi adeilad newydd i gynnwys toiledau a chawodydd. Mi fyddai'r adeilad yma yn mesur 11.1m x 3.6m, gyda waliau rendr a tho llechi naturiol. Bwriedir codi clawdd pridd gyda gwrych o blanhigion cynhenid ar ffin ogleddol y safle er mwyn ei warchod tra bod dwy garafan statig bresennol ger y tŷ i'w symud i leoliad newydd ymhellach i ffwrdd o'r eiddo.

1.4 Derbyniwyd Datganiad Ieithyddol a Chymunedol gyda'r cais.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI A2 - GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU - Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol

neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

POLISI B23 – MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig mwynderau'r ardal leol.

POLISI B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO - Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI CH22 - RHWYDWAITH BEICIO, LLWYBRAU A HAWLIAU TRAMWY - Gwarchodir pob rhan o'r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy trwy annog cynigion fydd yn eu hymgorffori yn foddhaol o fewn y datblygiad a thrwy wahardd cynlluniau i ymestyn y rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy. Os na fydd hyn yn bosib bydd yn rhaid gwneud darpariaeth briodol i wyro'r llwybr neu i ddarparu llwybr newydd boddhaol.

POLISI CH33 – DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI D16 - DARPARU SAFLEOEDD CARAFANAU GWYLIAU SEFYDLOG A SIALES GWYLIAU NEWYDD - Gwrthod cynigion i ddatblygu safleoedd newydd ar gyfer unedau carafanau gwyliau sefydlog (carafanau sengl neu ddwbl) neu siales gwyliau.

POLISI D19 - SAFLEOEDD NEWYDD AR GYFER CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA AC UNEDAU TEITHIOL - Caniatáu cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau teithiol, gwersylla neu unedau teithiol newydd os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol yn ymwneud gyda dyluniad, gosodiad a gwedd a lleoliad y datblygiad, rhwydwaith priffyrdd a mynediad digonol, defnydd dibenion teithiol yn unig, effaith gronnol safleoedd carafanau teithiol, gwersylla ac unedau teithiol presennol a gallu rhesymol y cyffiniau i gynnwys datblygiadau o'r fath.

Canllaw Cynllunio Atodol: Llety Gwyliau

Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, 2016)

- Pennod 7 - Cynnal yr Economi
- Pennod 11 - Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)
Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth (1997)
Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Nid yw'n ymddangos fod unrhyw hanes cynllunio perthnasol yn ymwneud â'r safle yma.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Gwrthwynebu ar sail mynediad |
| Uned Drafnidiaeth: | Argymhellir gwrthod y cais gan nad yw'r ffordd trac sengl sy'n arwain at y safle yn addas ar gyfer y math o drafnidiaeth a ddaw o ddatblygiad o'r raddfa yma. Tybir fod y rhwydwaith ffyrdd lleol hyd at y cylchfan ar yr A497 yn addas, a'r 50 medr cyntaf sy'n arwain at y traeth, ond wedi hynny mae'r cyfleuon i basio, yn enwedig i ddau gerbyd yn tynnu carafán, yn brin iawn. Mae'n bosibl ail ystyried os fyddai'r ymgeisydd yn cynnig darparu mannau pasio mewn lleoliadau amrywiol ar hyd y ffordd. |
| Uned Hawliau Tramwy: | Mae'r ffordd yn gul i lawr at y safle, mae pryder y bydd y math yma o ddatblygiad yn creu mwy o drafferthion a photensial creu achos iechyd a diogelwch i gerddwyr yn mynd neu ddod o'r traeth. Nodir hefyd fod y ffordd yma yn rhan o brif Lwybr Arfordir Cymru. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Cyngor safonol parthed materion draenio a gwastraff. |
| Dŵr Cymru: | Cyngor safonol. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Sylw am leoliad y safle yn agos i safleoedd gwarchodedig a'r angen i osod mesurau gwarchod a gwella bioamrywiaeth. |
| Swyddog Carafanau: | Pryder am gulni'r ffordd fynediad, cyfeiriad at faterion iechyd a diogelwch a'r angen am drwydded perthnasol. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ac ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth. |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

5.1 **Egwyddor y datblygiad**

5.1.1 Mae polisi D19 yn datgan y caniateir cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau teithiol, gwersylla neu unedau teithiol newydd os gellir cydymffurfio gyda'r holl feini prawf o fewn y polisi. Credir felly fod y bwriad mewn egwyddor, yn dderbyniol. Mae meini prawf y polisi yma yn ymwneud yn bennaf â sicrhau fod y safle yn un anymwthiol ac na fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y dirwedd, ei fod yn agos i'r rhwydwaith priffyrdd ag y gellir darparu mynediad digonol heb achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a nodweddion y dirwedd, fod y safle i ddiben teithiol yn unig ac effaith gronnol safleoedd carafanau teithiol. Trafodir yr agweddau yma yng ngweddill yr asesiad o'r cais hwn.

5.2 **Mwynderau gweledol**

5.2.1 Er bod y safle mewn lleoliad gweddol agored ac yn agos i'r arfordir nid yw o fewn unrhyw ddynodiad tirlun ffurfiol. Gwelir hefyd fod coed presennol yn wasgaredig gerllaw ac yn agos i'r ffordd fynediad sydd yn arwain at y safle.

5.2.2 Mae bwriad i godi clawdd pridd ar ran o ffin ogleddol y safle fyddai wedi ei blannu gyda gwrych o goed/llwyni cynhenid. Mi fyddai hyn o fudd i warchod mwynderau gweledol y safle a'r ardal gyfagos ac felly o safbwynt yr elfen yma, ni chredir fod y bwriad yn gwbl annerbyniol ar sail mwynderau gweledol ac felly ni ystyrir ei fod yn groes i ofynion polisi B23 na rhan 1 o Bolisi D19. Pe bai'r cais yn dderbyniol o safbwynt yr holl agweddau polisi eraill, ystyrir y byddai'n briodol sicrhau cynllun tirweddu priodol (yn ogystal â'r gwrych sydd yn rhan o'r cais) er mwyn cynnal a gwella mwynderau'r ardal a byddai hyn yn unol gyda Pholisi B27 o'r CDU.

5.3 **Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.3.1 Mae ffordd ddi-ddosbarth is-safonol gul yn arwain oddiar y briffordd gyfagos. Mae'r ffordd yma wedyn yn rhannu ble gellir cael mynediad at y traeth gerllaw neu trwy ffordd breifat tuag at safle'r cais.

5.3.2 Mae'r Uned Drafnidiaeth yn nodi fod 50m cyntaf y ffordd o'r gylchfan ar yr A497 yn addas, ond wedi hynny mae'n culhau gan wneud cyfleon basio i gerbydau yn tynnu carafanau yn brin. Credir felly fod y bwriad yn y lleoliad yma ag i'r niferoedd a nodwyd, yn anaddas ac na fyddai trwy hynny yn cydymffurfio gyda gofynion polisi CH33, yn benodol yr ail faen prawf sydd yn datgan *"bod y rhwydwaith ffyrdd presennol o safon ddigonol i allu delio â'r llif traffig sy'n debygol o ddeillio o'r datblygiad newydd"*.

5.3.3 Mae pryder am ddiffygion y ffordd fynediad yn cael ei ategu ato gan swyddog Carafannau'r Cyngor yn eu sylwadau ar y cais.

5.3.4 Yn ogystal, mae Uned Hawliau Tramwy y Cyngor yn nodi fod y ffordd fynediad yn ffurfio rhan o Lwybr Arfordir Cymru ag yn cynnwys llwybr cyhoeddus. Maent yn bryderus y byddai gwrthdaro rhwng cerddwyr a cherbydau oherwydd culni'r ffordd.

5.3.5 Mae ail maen prawf Polisi D19 yn gofyn i unrhyw safle fod yn agos at y rhwydwaith priffyrdd ag y gellir darparu mynediad digonol heb achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a nodweddion y dirwedd.

5.3.6 Bwriedir defnyddio mynedfa a ffordd bresennol ar gyfer y datblygiad ac fel sydd eisoes wedi ei nodi, ystyrir fod mwyafrif y ffordd yn is-safonol ar gyfer y defnydd arfaethedig ac nad oes unrhyw addasiadau pellach wedi ei chynnig i'r ffordd yma fel rhan o'r cais. Er bod y ffordd ddi-ddosbarth yma yn cychwyn allan gyda lle i ddau gar deithio ar y cyd mae'n raddol yn culhau. Mae Canllaw Cynllunio Atodol: Llety Gwyliau'r Cyngor yn ymhelaethu ar hyn ac yn nodi ym mharagraff 34 ei bod yn bwysig bod safleoedd newydd yn cael eu lleoli mor agos ag y bo modd i'r prif rwydwaith priffyrdd, hynny yw dosbarth A a B, yn arbennig y safleoedd hynny sy'n bwriadu dod allan i ffyrdd gwledig di-ddosbarth. Lonydd trac sengl yw ffyrdd gwledig di-ddosbarth fel arfer ac maent yn cael eu hystyried yn anaddas i draffig trwm ac ni chefnogir unrhyw gynnig nad yw wedi ei leoli'n agos i'r prif rwydwaith priffyrdd ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

5.3.7 Ar sail yr uchod felly, ystyrir fod y ffordd sy'n arwain i'r safle yn is-safonol ac ystyrir felly fod y bwriad yn groes i faen prawf 2 o Bolisi D19 a gofynion polisi CH33.

5.4 **Unrhyw ystyriaethau eraill**

5.4.1 Nid yw'r elfen sydd yn golygu symud dwy garafan statig bresennol i leoliad newydd yn gwbl ddealladwy o ran defnydd presennol yr unedau, y defnydd bwriadedig nag

ychwaith y lleoliad (hynny yw os ydynt neu os byddent o fewn y cwrtil neu beidio). Mae pryder am yr elfen yma o'r cais yn ogystal ag pe bai agweddau eraill y cais wedi bod yn dderbyniol o safbwynt polisi yna byddai swyddogion wedi mynd yn ôl at yr asiant i gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa ynglŷn â'r unedau statig a'r bwriad i'w symud yn ogystal â'r defnydd bwriadedig (ac os yw yn unol gyda Pholisi D16 a'r CCA perthnasol ai peidio). Fodd bynnag, gan fod gwrthwynebiad sylfaenol i brif ran y cais ni aethpwyd yn ôl i gadarnhau'r sefyllfa yma ond pe derbynnir cais arall yn y dyfodol bydd angen i'r ymgeisydd egluro a chyfiawnhau'r bwriad ynglŷn â'r ddwy statig bresennol er mwyn gallu ei asesu yn briodol. Yn ogystal, mi fyddai angen cyfiawnhad clir ynglyn a'r defnydd presennol a bwriedig a chadarnhad fod y lleoliad diwygiedig o fewn cwrtil yr eiddo presennol neu beidio.

## 5.5 Materion Ieithyddol a Chymunedol

5.5.1 Cyflwynwyd Datganiad Ieithyddol a Chymunedol fel rhan o'r cais a gofynnwyd i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd am sylwadau ar ei gynnwys. Yn eu hymateb maent yn datgan y canlynol:

- Mae'r safle tu mewn i ward Llanystumdwy. Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 77% o unigolion 3+ yn gallu siarad Cymraeg. Mae angen cymryd gofal i sicrhau bod datblygiadau yn cyfrannu i gadw'r canran dros 70%.

- Mae preswyliaeth mewn carafanau teithiol yn un dros dro ei natur. Dim ond ar gyfer diben gwyliau yn unig fydd y carafanau yn cael eu defnyddio. Oherwydd bydd y maes carafanau ar agor am gyfnod o'r flwyddyn mae'n bosib y bydd ymwelwyr yn yr ardal trwy gydol y cyfnod hwnnw. Dylid wrth gwrs cofio nad all y system gynllunio defnydd tir wahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Ni ddylid ceisio rheoli pwy sy'n aros ar y maes carafanau ar sail ieithyddol. Bydd yr union effaith yn dibynnu ar drosiant yr ymwelwyr ar y safle a faint o ddefnydd fyddant yn ei wneud o gyfleusterau a gwasanaethau lleol a beth ydi agwedd y busnesau/ darparwyr cyfleusterau a gwasanaethau i'r Gymraeg. Dylid hefyd ystyried y potensial i ymwelwyr di-Gymraeg symud i fyw i'r ardal yn barhaol ar ôl bod ar eu gwyliau yno.

- Gall y system gynllunio defnydd tir gyfrannu i gynnal a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg trwy hyrwyddo datblygiadau sy'n creu gwaith yn lleol. Mae'r datblygiad arfaethedig yn mynd i gyfrannu i gynnal neu gryfhau'r economi leol yn uniongyrchol trwy gyflogi yn lleol ac yn anuniongyrchol trwy ychwanegu at wario mewn busnesau lleol eraill.

- Er mwyn uchafu'r effeithiau positif posib awgrymir fod mesurau ymyriadau positif yn cael eu hystyried er mwyn gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn ystod gam gweithredu'r caniatâd cynllunio. Gall y rhain gynnwys, enw Cymraeg ar y safle, arwyddion dwyieithog ar y safle, a darparu gwybodaeth am hanes a diwylliant yr ardal. Awgrymir bod rheolwr y safle yn cysylltu gyda'r Fenter Iaith leol (HunanIaith) i gael trafodaeth ynglŷn â mesurau a allai ychwanegu gwerth i'r busnes, e.e. defnydd o'r Gymraeg wrth hysbysebu'r safle. Gallai'r rheolwr gysylltu hefyd gyda Swyddfa Comisiynydd yr Iaith a Busnes Cymru sydd yn gallu rhoi cyngor ymarferol i fusnesau sydd am weithredu yn ddwyieithog.

5.5.2 Gweler felly fod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn credu fod y Datganiad yn dderbyniol. Credir felly fod y bwriad yn bodloni gofynion polisi A2 o'r CDU yn ogystal â'r CCA perthnasol.

## 6. Casgliadau:

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol yn ogystal â sylwadau a dderbyniwyd, ni chredir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail y materion fel y nodir yn yr adroddiad sef y byddai'r datblygiad arfaethedig o'i ganiatáu yn achosi trafnidiaeth ychwanegol i ddefnyddio ffordd is-safonol sy'n arwain i'r safle er niwed sylweddol i ddiogelwch ffyrdd a cherddwyr y llwybr cyhoeddus

## 7. Argymhelliad:

7.1 Gwrthod – rhesymau

Byddai'r datblygiad arfaethedig o'i ganiatáu yn achosi trafnidiaeth ychwanegol i ddefnyddio ffordd trac sengl is-safonol sy'n arwain i'r safle er niwed sylweddol i ddiogelwch ffyrdd a cherddwyr y llwybr cyhoeddus. Mae'r bwriad felly yn groes i ofynion polisïau CH33 a D19 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) a Chanllaw Cynllunio Atodol: Llety Gwyliau, Cyngor Gwynedd (Gorffennaf 2011).